




GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales



Gwyliadwriaeth Heintiau Mewn Safleoedd Llawfeddygol Orthopedig

Adroddiad Blynyddol 2018:

Cymru Gyfan

Yn cynnwys data o 01/01/2008 – 31/12/2018

Fersiwn 1

Cyhoeddwyd: 06/02/2024

Gellir cyrchu'r Rhaglen Heintiau ac Ymwrthedd Gwrthficrobaidd sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd drwy wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn: <https://icc.gig.cymru/>

Cyhoeddwyd gan Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Rhif 2 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ

Cyhoeddwyd 06 February 2024, Fersiwn 1

Cydnabyddiaeth

Rydym yn ddiolchgar i'r timau llawfeddygol, timau rheoli heintiau a thimau archwilio o'r holl ysbytai sy'n cymryd rhan am barhau i ddarparu data gwyliadwriaeth i Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Awduron yr adroddiad: Daryn Sutton, Wendy Harrison

Cyfeiriwch at y ddogfen hon fel:

Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Adroddiad Blynyddol Cymru Gyfan 2018 ar Heintiau Mewn Safleoedd Llawfeddygol Orthopedig 2018, Cymru.

Dylid cyfeirio ceisiadau ac ymholiadau data at:

Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
Rhaglen HCAI ac AMR
4^{ydd} llawr, Rhif 2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd CF10 4BZ

E-bost: harp@wales.nhs.uk

Tabl Cynnwys

Tablau	2
Ffigurau	2
Cyflwyniad	3
Dehongli data	3
Crynodeb	4
Adran 1: Cyfraddau SSI	5
Adran 2: Amllder diwygiadau.....	6
Diwygiadau Blynnyddol.....	6
Adran 2: Manylion y llawdriniaeth a demograffeg	7
Mathau o lawdriniaeth	9
Gwrthfotigau proffylactig	10
Adran 3: Manylion ar ôl y driniaeth.....	11
Canlyniadau microbioleg	11
Adran 4: Ansawdd data.....	12
Trafodaeth	13
Cyfeiriadau	14
Atodiad	15

Tablau

Table 1 - SSI rates split by procedure type and demographics.....	7
Table 2 - Procedure type by OPCS code.....	9
Table 3 - Prophylactic antibiotics SSI rate.....	10
Table 4 - Microbiological results, organisms and SSI rates.....	11
Table 5 - Healthboard level SSI rates for 2018.....	15
Table 6 - Healthboard microbiological data for 2018.....	15

Ffigurau

Figure 1 - Graph for All Wales primary hip SSI rate 2008-2018.....	5
Figure 2 - Graph for All Wales primary knee SSI rate 2008-2018.....	5
Figure 3 - Graph showing hip revision frequency in all Wales 2008-2018.....	6
Figure 4 - Graph showing knee revision frequency in all Wales 2008-2018.....	6
Figure 5 - Graph showing frequency of different procedure types 2008-2018.....	8
Figure 6 - Graph showing the usage of prophylactic antibiotics in 2017 vs 2018.....	10
Figure 7 - Proportions of data reporting sources per year 2008-2018.....	12

Cyflwyniad

Cafodd y tîm Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru gyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu a chefnogi gweithredu gwyliadwriaeth yn dilyn llawdriniaethau orthopedig a gynhelir yn ysbytai'r GIG yng Nghymru. Mae'r broses hon wedi bod yn orfodol ers 2007.

Mae Heintiau mewn Safleoedd Llawfeddygol (SSIs) yn faes pwysig ar gyfer gwyliadwriaeth ac mae'n parhau i fod yn gymhlethdod llawfeddygaeth lle mae costau dynol ac ariannol yn uchel[1] [2]. Yn ogystal, gellir atal y rhan fwyaf o heintiau[3].

Gall canlyniadau difrifol i gleifion ddeillio o SSIs, gan gynnwys poen, dioddefaint ac, ar rai achlysuron, mae angen ymyrraeth llawfeddygol ychwanegol arnynt[4]. Mae'n bwysig cydnabod y gall SSIs amrywio o redlif cymharol ddibwys o glwyfau heb unrhyw gymhlethdodau eraill i gyflwr sy'n peryglu bywyd. Mae canlyniadau clinigol eraill SSIs yn cynnwys creithiau gwael sy'n annerbyniol yn gosmetig, poen a chosi parhaus, cyfyngu ar symud ac effaith sylweddol ar les emosiynol.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys data a gasglwyd yn ystod y llawdriniaeth llawfeddygol gychwynnol, llawfeddygaeth adolygol, ac unrhyw ymweliadau dilynol eraill â'r ysbyty (boed wedi'u cynllunio ai peidio). Mae'r wyladwriaeth yn ymgorffori data a gasglwyd gan dimau clinigol ac yn defnyddio diffiniadau y cytunir arnynt [5] yn rhyngwladol, gan ganiatáu i ddata Cymru gael ei gymharu â chronfeydd data rhyngwladol eraill a'i ymgorffori ynddynt, megis cronfa ddata SSI Ewropeaidd Canolfan Atal a Rheoli Clefydau Ewrop. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar y canlyniadau a gafwyd o gasglu data gwyliadwriaeth yn 2018.

Dehongli data

Cyfrifir cyfraddau heintiau mewn safleoedd llawfeddygol yn yr adroddiad hwn fel nifer yr heintiau fel cyfran o gyfanswm y llawdriniaethau a gofnodir ar y ffurflen ar y we. Adroddir bod hyn yn gyfradd fesul 100 llawdriniaeth.

$$\text{Cyfradd SSI} = \frac{\text{nifer yr SSIs}}{\text{nifer y triniaethau a adroddwyd}} \times 100\%$$

Mae SSIs mewn llawdriniaethau orthopedig fwyaf tebygol o ddigwydd o fewn y 90 diwrnod cyntaf ar ôl y llawdriniaeth. Gellir eu hadrodd ar ôl 90 diwrnod ac mae'r system yn caniatáu gwyliadwriaeth heintiau am hyd at bum mlynedd yn dilyn y llawdriniaeth. Fodd bynnag, mae haint sy'n digwydd fwy na blwyddyn ar ôl y llawdriniaeth yn brin, ond mae'n bosibl os gellir cysylltu'r haint yn bendant â'r llawdriniaeth.

Mae gwyliadwriaeth estynedig yn berthnasol i lawdriniaethau a adroddir yn electronig yn unig, ac yn gyffredinol caiff llawdriniaethau hŷn a adroddir ar ffurflenni papur eu monitro hyd at yr adolygiad ôl-ryddhau yng nghlinig y llawfeddyg.

Mae pob cyfwng hyder yn cael ei osod ar hyder o 95% oni nodir yn wahanol.



Crynodeb

NODER: Gall yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol hwn fod yn wahanol i'r hyn a geir yn yr adroddiadau mwy rheolaidd oherwydd oedi wrth i'r data gyrraedd Iechyd Cyhoeddus Cymru a diwygiadau'n cael eu gwneud yn dilyn cyhoeddi adroddiadau.

1 in 458
procedures had an
SSI reported in 2018

Down from

1 in 285
procedures had an
SSI reported in 2017



Streptococcus spp. are most frequently identified family of organisms


Identified in **83%** of reported SSIs in 2018

SSI rate of **0.18%** which is **9 times** higher than the next most identified family of organisms


5,501 procedures were reported in 2018. Of these procedures, 12 were reported to have developed an SSI which equates to an SSI rate of 0.22%. Knee procedures had a higher SSI rate (0.37%) than hip procedures (0.12%).

Adran 1: Cyfraddau SSI

Cyfraddau SSI Blynyddol



Ffigur 1 – Graff yn dangos y newid yn y gyfradd SSI yn ôl blwyddyn y llawdriniaeth ar gyfer llawdriniaethau clun sylfaenol.




Ffigur 2 – Graff yn dangos y newid yn y gyfradd SSI yn ôl blwyddyn y llawdriniaeth ar gyfer llawdriniaethau pen-glin sylfaenol.

Mae'r gyfradd SSI wedi bod yn gostwng yn raddol ers 2008, fodd bynnag, roedd gostyngiad sydyn mewn llawdriniaethau pen-glin sylfaenol yn 2016 pan gyflwynwyd cipio data electronig. Mae'r gostyngiad hwn mewn cyfraddau yn bresennol ar gyfer


llawdriniaethau clun a phen-glin, yn ogystal â'r cyfraddau cyffredinol ond yn fwyaf amlwg mewn llawdriniaethau pen-glin.

Adran 2: Amllder diwygiadau

Diwygiadau Blynyddol



Ffigur 3 – Graff yn dangos y newid yn amllder llawdriniaethau adolygol fesul blwyddyn ar gyfer holl llawdriniaethau'r glun.



Ffigur 4 – Graff yn dangos y newid yn amllder llawdriniaethau adolygol fesul blwyddyn ar gyfer pob llawdriniaeth pen-glin.

Adran 2: Manylion y llawdriniaeth a demograffeg


Tabl 1 - Nifer y llawdriniaethau a dadansoddiad cyfradd SSI yn ôl math o llawdriniaeth a manylion demograffig.

Wales 2018				Wales 2008-2018			
Overall	Procedures 5,501	SSI 12	SSI rate 0.2%	Overall	Procedures 59,534	SSI 644	SSI rate 1.1%
Procedure types				Procedure types			
Primary hip	2,532	3	0.1%	Primary hip	26,310	256	1.0%
Revision hip	154	0	0.0%	Revision hip	1,131	12	1.1%
Primary knee	2,402	9	0.4%	Primary knee	29,669	359	1.2%
Partial knee*	290	0	0.0%	Partial knee*	979	1	0.1%
Revision knee	100	0	0.0%	Revision knee	808	11	1.4%
Other/unknown	23	0	0.0%	Other/unknown	637	5	0.8%
Age groups				Age groups			
Under 65	1,725	6	0.3%	Under 65	19,316	230	1.2%
65-74	2,071	2	0.1%	65-74	22,193	224	1.0%
75-84	1,467	3	0.2%	75-84	15,101	162	1.1%
85 and over	204	1	0.5%	85 and over	2,265	19	0.8%
Unknown	34	0	0.0%	Unknown	659	9	1.4%
Sex				Sex			
Male	2,294	5	0.2%	Male	25,158	319	1.3%
Female	3,147	6	0.2%	Female	34,016	321	0.9%
Unknown	60	1	1.7%	Unknown	360	4	1.1%
Report source				Report source			
Electronic	5,501	12	0.2%	Electronic	19,666	60	0.3%
Paper forms	0	0		Paper forms	39,868	584	1.5%
*Unicondylar and patellofemoral knee replacements.				Wales Mean 2008-2018		2.57%	
						1.93%	
						1.29%	
						0.64%	
						0.00%	

Mae dadansoddi data ar draws gwahanol ddemograffeg yn golygu y gellir arsylwi ar ffactorau risg posibl sy'n gysylltiedig â datblygu SSI, yn yr achos hwn mae'n ymddangos bod cyfradd SSI ar gyfer llawdriniaethau pen-glin sylfaenol bedair gwaith yn uwch na chyfradd llawdriniaethau sylfaenol y glun yn 2018. Nid yw'r arsylwad hwn yr un fath dros y blynyddoedd, gyda'r gwrthwyneb i'w weld yn 2017, gyda chyfradd SSI y glun sylfaenol fwy na dwywaith y llawdriniaethau pen-glin sylfaenol (0.46% a 0.18% yn y drefn honno).

Mae cysylltiad llac rhwng oedran a'r risg o SSI ar draws data blynyddol, gyda'r cleifion hynny o dan 65 oed mewn mwy o berygl na chleifion 65 oed a hŷn, nid yw'r duedd hon yn amlwg wrth edrych ar ddata 2018 yn unig ($P = 0.029$, $P = 0.068$ ar gyfer data 2018 yn unig). Mae gwahaniaeth sylweddol hefyd mewn cyfraddau SSI rhwng y rhywiau ($P = 0.007$), ac mae gan ddynion risg uwch o ddatblygu SSI na menywod. Mae'r duedd hon yn bresennol yn 2018 hefyd, fodd bynnag, gyda niferoedd is ac felly, llai o arwyddocâd.

Bydd cymhariaeth mewn cyfraddau SSI rhwng llawdriniaethau a adroddir ar bapur a llawdriniaethau a adroddir yn electronig yn cael ei wneud yn yr adran olaf (Ansawdd Data) ond, fel y gwelir yn y tabl uchod, mae'r gyfradd SSI yn y data electronig yn dal i fod yn sylweddol is na data papur. Mae cyfraddau SSI ysbytai a byrddau iechyd unigol i'w gweld yn yr atodiad.



Figur 5 – Graff i ddangos cyfran y gwahanol fathau o lawdriniaethau ar gyfer llawdriniaethau orthopedig a gynhaliwyd bob blwyddyn, 2008-2018.

Mae'n amlwg, ers cyflwyno casglu data electronig yn 2015 bod nifer y llawdriniaethau pen-glin adolygol wedi cynyddu, mae hyn yn wahanol i lawdriniaethau clun adolygol, sydd wedi gweld cynnydd a gostyngiadau cymharol ar bob adeg ers 2008.

Mathau o lawdriniaeth


Tabl 2 – Dadansoddiad o niferoedd y llawdriniaethau a chyfraddau SSI ar gyfer mathau unigol o lawdriniaeth.

Joint	OPCS	Name	Procedures	SSI	SSI rate	(95% CI)
Hip	W371	Primary total hip replacement using cement	871	2	0.23%	(0.03 - 0.83)
	W373	Revision of total hip replacement using cement	30	0	0.00%	(0.00 - 11.57)
	W381	Primary total hip replacement not using cement	1034	1	0.10%	(0.00 - 0.54)
	W383	Revision of total hip replacement not using cement	110	0	0.00%	(0.00 - 3.30)
	W391	Primary total hip replacement NEC	296	0	0.00%	(0.00 - 1.24)
	W393	Revision of total hip replacement NEC	14	0	0.00%	(0.00 - 23.16)
	W581	Primary hip resurfacing	0	0	0.00%	(0.00 - 0.00)
	W401	Primary total knee replacement using cement	2251	8	0.36%	(0.15 - 0.70)
Knee	W403	Revision of total knee replacement using cement	95	0	0.00%	(0.00 - 3.81)
	W411	Primary total knee replacement not using cement	145	1	0.69%	(0.02 - 3.78)
	W413	Revision of total knee replacement not using cement	5	0	0.00%	(0.00 - 52.18)
	W421	Primary total knee replacement NEC	13	0	0.00%	(0.01 - 24.71)
	W423	Revision of total knee replacement NEC	0	0	0.00%	(0.00 - 60.24)
	W428	Other total replacement of knee joint	4	0	0.00%	(0.00 - 13.72)
	Z844	Patellofemoral knee replacement	25	0	0.00%	(0.00 - 1.46)
	Z845	Unicondylar knee replacement - medial	250	0	0.00%	(0.00 - 21.80)
Unknown	Z846	Unicondylar knee replacement - lateral	15	0	0.00%	(0.00 - 21.80)
	W05	Prosthetic replacement of bone	1	0	0.00%	(0.00 - 0.98)

*Procedures reported in 2018 only

Mean SSI Rate	0.58%
	0.39%
	0.19%
	0.10%
	0.00%

Gwrthfotigau proffylactig



Figur 6 – Graff yn dangos y defnydd cymharol o wrthfotigau proffylactig yn 2017 o gymharu â 2018.

Tabl 3 – Gwrthfotigau proffylactig yn ôl amllder eu defnydd, gyda'u cyfraddau SSI cysylltiedig ar gyfer 2018.

	Procedures	SSI	SSI rate	(95% CI)
Ceftriaxone + Teicoplanin	86	0	0.00%	(0.00% - 0.61%)
Cefuroxime	1087	0	0.00%	(0.00% - 12.34%)
Flucloxacillin + Gentamicin	182	0	0.00%	(0.11% - 1.49%)
Gentamicin	177	0	0.00%	(0.00% - 0.31%)
Gentamicin + Teicoplanin	3322	11	0.33%	(0.00% - 1.89%)
Teicoplanin	27	0	0.00%	(0.00% - 2.06%)
Other	32	1	3.13%	(0.17% - 0.59%)
Unknown	588	0	0.00%	(0.07% - 14.16%)

Mean SSI Rate	0.58%
	0.39%
	0.19%
	0.10%
	0.00%

O'i gymharu â 2017 mae proffil defnyddio gwrthfotigau proffylactig wedi newid; mae'r defnydd o Ceftriaxone a Teicoplanin wedi lleihau ac mae'r cyfuniad o Gentamicin a Teicoplanin wedi cynyddu o ganlyniad gan ddod y cyfuniad gwrthfotig a ddefnyddir amlaf ar gyfer prophylaxis cyn llawdriniaeth.

Adran 3: Manylion ar ôl y llawdriniaeth

Canlyniadau microbioleg

Tabl 4 – Cyfraddau SSI yn ôl micro-organeb unigol.

	2018		2014*-2018	
	Number of SSI	SSI rate	Number of SSI	SSI rate
Enterococcus	1	0.02%	13	0.05%
<i>E. faecalis</i>	0	0.00%	5	0.02%
<i>E. faecium</i>	1	0.02%	8	0.03%
Escherichia	1	0.02%	2	0.01%
<i>E. coli</i>	1	0.02%	2	0.01%
Klebsiella	1	0.02%	3	0.01%
<i>K. pneumoniae</i>	1	0.02%	2	0.01%
Pseudomonas	1	0.02%	1	0.00%
<i>P. aureginosa</i>	1	0.02%	1	0.00%
Staphylococcus	10	0.18%	43	0.16%
<i>S. aureus</i>	6	0.11%	28	0.11%
-No resistance data	6	0.11%	28	0.11%
<i>S. (not specified)</i>	2	0.04%	2	0.01%
Coagulase negative	2	0.04%	13	0.05%
- <i>S. epidermidis</i>	1	0.02%	7	0.03%
- <i>S. haemolyticus</i>	0	0.00%	5	0.02%
-Not specified	1	0.02%	1	0.00%
Other	1	0.02%	1	0.00%
<i>Other Gram negative bacilli</i>	1	0.02%	1	0.00%
No microbiology results	1	0.02%	699	2.63%

SSI rate shown as a percentage of procedures where the organism was present.

Tests can be positive for multiple organisms, therefore, some infections may be present multiple times under different organisms.

*Microbiology data was not collected prior to 2014

0.20%
0.19%
0.16%
0.08%
0.00%

Yn gyffredinol, yr organeb fwyaf cyffredin sy'n bresennol mewn SSIs yw *Staphylococcus* sp. Yn y grŵp hwn, *S. aureus* yw'r rhywogaeth sengl fwyaf cyffredin, ac roedd yn bresennol chwe gwaith yn 2018, sy'n cynrychioli 50% o'r holl heintiau yn ystod y flwyddyn. Dylid nodi, er bod amllder profion positif *S. aureus* wedi gostwng, mae cyfran gymharol yr heintiau wedi cynyddu o 2017 a hynny 10 gwaith a 43% yn y drefn honno. Ni ddarparwyd data ymwrthedd ar gyfer yr achosion hyn, ac felly nid yw'n bosibl cadarnhau a oedd y rhain yn sensitif i fethisilin neu a oedd ganddynt ymwrthedd. Roedd Staphylococci ceulo negyddol yn ogystal â Enterococci yn gymharol gyffredin hefyd.


Gan fod y system wylidwriaeth yn cipio organebau lluosog, mae'r niferoedd hyn yn uwch na chyfanswm yr SSIs, gan fod organebau lluosog wedi'u cofnodi mewn rhai heintiau. Nid oes unrhyw ffordd chwaith o nodi achosiad ac, felly, ni allwn gadarnhau ai unrhyw un o'r organebau hyn yw'r asiant achosol, neu a ydynt yn organebau cydfodol yn unig a godwyd ynghyd â'r asiant achosol. Mae tebygolrwydd uchel bod rhai Staphylococci a Enterococci yn y system wylidwriaeth yn gydfodol yn unig, ac mai eraill yw'r asiantau achosol.

Adran 4: Ansawdd data

Mae yna lawer o anghysondebau yn y data a adroddir ar gyfer y cynllun gwylidwriaeth SSI orthopedig, gyda rhai ysbytai'n adrodd yn fwy cyson nag eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ysbytai ledled Cymru yn parhau i gydymffurfio trwy adrodd am lawdriniaethau orthopedig sydd gennym dan wylidwriaeth, ond mae yna broblem sylweddol gan nad yw llawer o'r ysbytai hyn wedi adrodd unrhyw SSI am gyfnodau sy'n amrywio o ychydig fisoedd i sawl blwyddyn. Gellir priodoli llawer o'r anghysondeb hwn i'r newid yn 2015 i adrodd data electronig, lle mae'r newid mewn llawdriniaethau wedi golygu bod rhai ysbytai'n adrodd y rhan fwyaf o lawdriniaethau ar y system ond nad ydynt yn diweddarau'r cofnodion hyn pan nodir haint.

Tynnwyd sylw at y mater hwn yn 2017 ac mae camau wedi'u cymryd eleni i geisio ymgysylltu ag ysbytai er mwyn iddynt adrodd am heintiau ac i nodi'r materion y mae angen ymdrin â nhw er mwyn gwella cydymffurfiaeth. Ysbyty Treforys welodd yr enillion cymharol mwyaf mewn cydymffurfiaeth ar drothwy'r Flwyddyn Newydd yn 2019.



Ffigur 7 – Cyfrannau o ffynonellau adrodd data bob blwyddyn, sy'n darlunio'r newid o ffynonellau adrodd Papur i gyfrwng Electronig ers 2014.

Daeth y gwaith o gadw golwg ar y llawdriniaethau orthopedig ar bapur i ben yn 2016 ac, er y newid, ni fu unrhyw newid sylweddol yn nifer y llawdriniaethau sy'n cael eu hadrodd i ICC. Roedd gostyngiad bychan yn nifer y llawdriniaethau a adroddwyd yn 2018 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Trafodaeth

Yn 2018, cafodd 5,501 o lawdriniaethau eu hadrodd i Iechyd Cyhoeddus Cymru. O'r llawdriniaethau hyn, adroddwyd bod 12 wedi datblygu SSI yn dilyn y llawdriniaeth, sy'n cyfateb i gyfradd SSI Cymru o 0.22%.

Mae'n anodd canfod y ffactorau risg mawr sy'n cyfrannu at ddatblygu SSIs, ond mae'n ymddangos bod cydberthynas negyddol rhwng cyfradd SSI ac oedran gyda'r rhai dan 65 oed â chyfradd SSI o 0.35%, gyda 50% o'r holl SSIs a adroddwyd eleni o fewn y grŵp oedran hwn. Fodd bynnag, nid yw'r duedd yn llinol, gan fod nifer fach o lawdriniaethau ac un SSI wedi chwyddo'r gyfradd SSI ar gyfer rhai dros 85 i 0.49%.

Nid oedd y gwahaniaeth rhwng y rhywiau yn y gyfradd SSI yn arwyddocaol yn 2018 gyda'r gyfradd o fenywod gydag SSI yn 0.22% o'i gymharu â'r gyfradd SSI o 0.19% ymhlith dynion. Mae data 2018 yn gwrthdroi'r duedd 10 mlynedd sy'n dangos gogwydd sylweddol tuag at ddynion â chyfraddau uwch o SSIs ar 1.27% o'i gymharu â 0.94% ar gyfer menywod.

Yn gyffredinol, mae yna lawer o amrywioldeb yn arferion adrodd ysbytai. Mae rhai yn cydymffurfio'n llawn â'r cynllun gwyliadwriaeth tra nad yw eraill yn adrodd am heintiau, a rhai ddim yn adrodd am lawdriniaethau hyd yn oed. Mae hyn yn golygu nad yw cymharu cyfraddau heintiau ysbyty â chyfartaledd Cymru yn cael ei argymhell, gan fod y weithred o adrodd heintiadau'n unig yn ddigon iddynt fod yn uwch na'r gyfradd SSI gyfartalog ar gyfer Cymru. Mae'n annhebygol bod y cyfraddau sero mewn rhai ysbytai'n adlewyrchiad cywir o'r gyfradd SSI, yn enwedig o ystyried nifer y llawdriniaethau dan sylw.

Wrth drafod anwadalrwydd SSI mae'n bwysig ystyried effaith defnyddio cipio data electronig. Fel y gwelir o'r cyfraddau SSI ar ôl 2014, efallai bod y newid i gipio data electronig wedi cyfrannu at ostyngiad yng nghyfraddau SSI o ganlyniad i dan-adrodd. Mae hefyd yn ddiddorol nodi'r cynnydd mewn llawdriniaethau adolygol a adroddwyd yn yr un cyfnod. Nid yw ein dull casglu data'n rhestru adrodd llawdriniaethau adolygol fel elfen ddewisol yn y ffordd y cai ei gyflwyno pan mai adrodd ar bapur oedd y norm, mae'n debygol mai dyma fydd ffynhonnell y cynnydd a arsylwyd.

Mae'r adroddiadau orthopedig wedi parhau ar amllder adrodd misol. Mae hyn wedi galluogi sawl ysbyty i adolygu'r llawdriniaethau a adroddwyd ganddynt o restr llinell a ddarperir ar gyfer y mis canlynol mewn modd amserol, sydd wedi bod o gymorth o ran ansawdd y set ddata orthopedig. Yn anffodus, nid yw'n ymddangos bod y rhestr llinell hon wedi gweithredu fel y cyfrwng atgoffa angenrheidiol sy'n ofynnol i sbarduno adrodd am heintiau'n gyffredinol.

Mae'r tîm HARP wedi ymrwymo i wella'r system wyliadwriaeth orthopedig ac felly maent wedi bod yn ymchwilio i amrywiaeth o ddulliau i ddal data heintiau o ysbytai mewn system hewristig a fydd yn cyfyngu ar yr oriau gwaith sydd eu hangen i gynhyrchu cyfradd SSI ar gyfer pob ysbyty sy'n cael ei gynnwys. Bydd y system hon yn gweithredu fel ateb dros dro nes bod system fwy parhaol yn cael ei datblygu. Wrth i ni fynd drwy'r broses o ddatblygu a gweithredu'r dulliau newydd hyn, byddem yn ei werthfawrogi pe gallai ysbytai barhau i adrodd trwy'r sianeli arferol.

1. Plowman R. The socioeconomic burden of hospital acquired infection. Euro surveillance: bulletin Européen sur les maladies transmissibles. 2000; 5(4).
2. Jenks PJ, Laurent M, McQuarry S, Watkins R. Clinical and economic burden of surgical site infection (SSI) and predicted financial consequences of elimination of SSI from an English hospital. Journal of Hospital Infection. 2014; 86(1): t. 24-33.
3. National Institute for Health and Care Excellence. Surgical site infections: prevention and treatment. [Ar lein].; 2017 [cyrchwyd 2018 Mehefin 1. Ar gael yn: <https://www.nice.org.uk/guidance/CG74/chapter/1-Guidance>.
4. Sykes PK, Brodribb RK, McLaws ML, McGregor A. When continuous surgical site infection surveillance is interrupted: The Royal Hobart Hospital experience. American Journal of Infection Control. 2005; 60(2): t. 422-427.
5. Horan TC, Gaynes RP, Martone WJ, Jarvis WR, Emori TG. CDC definitions of nosocomial surgical site infections, 1992: A modification of CDC definitions of surgical wound infections. Infection Control & Hospital Epidemiology. 1992; 13(10): t. 606-608.
6. van Walraven C, Musselman R. The Surgical Site Infection Risk Score (SSIRS): A Model to Predict the Risk of Surgical Site Infections. PLoS One. 2013; 8(6): t. e67167.

Tabl 5 – Cyfraddau SSI byrddau iechyd yn 2018, wedi'u dadansoddi yn ôl cymalau.

	Hip Procedures			Knee Procedures			All Procedures		
	Procedures	SSI	SSI rate*	Procedures	SSI	SSI rate*	Procedures	SSI	SSI rate*
Abertawe Bro Morgannwg UHB	83	0		105	0		188	0	
Aneurin Bevan UHB	841	0		1083	6	0.55%	1926	6	0.31%
Betsi Cadwaladr UHB	695	0		590	0		1285	0	
Cardiff and Vale UHB	46	0		43	0		89	0	
Cwm Taf UHB	373	2	0.54%	413	3	0.73%	787	5	0.64%
Hywel Dda UHB	656	1	0.15%	569	0		1226	1	0.08%

Mean SSI rate	0.78%
	0.39%
	0.19%
	0.10%
	0.00%

Tabl 6 – Data microbioleg ar lefel byrddau iechyd 2018

	ABMUHB		ABUHB		BCUHB		CVUHB		CTUHB		HDUHB	
	Number of SSI	SSI rate	Number of SSI	SSI rate	Number of SSI	SSI rate	Number of SSI	SSI rate	Number of SSI	SSI rate	Number of SSI	SSI rate
Enterococcus	0	0.00%	1	0.02%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%
<i>E. faecalis</i>	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%
<i>E. faecium</i>	0	0.00%	1	0.02%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%
Escherichia	0	0.00%	1	0.02%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%
<i>E. coli</i>	0	0.00%	1	0.02%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%
Klebsiella	0	0.00%	1	0.02%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%
<i>K. pneumoniae</i>	0	0.00%	1	0.02%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%
Pseudomonas	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	1	0.02%	0	0.00%
<i>P. aeruginosa</i>	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	1	0.02%	0	0.00%
Staphylococcus	0	0.00%	3	0.05%	0	0.00%	0	0.00%	6	0.11%	1	0.02%
<i>S. aureus</i>	0	0.00%	2	0.04%	0	0.00%	0	0.00%	4	0.07%	0	0.00%
-No resistance data	0	0.00%	2	0.04%	0	0.00%	0	0.00%	4	0.07%	0	0.00%
<i>S. (not specified)</i>	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	1	0.02%	1	0.02%
Coagulase negative	0	0.00%	1	0.02%	0	0.00%	0	0.00%	1	0.02%	0	0.00%
- <i>S. epidermidis</i>	0	0.00%	1	0.02%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%
- <i>S. haemolyticus</i>	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%
-Not specified	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	1	0.02%	0	0.00%
Other	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	1	0.02%	0	0.00%
<i>Other Gram negative bacilli</i>	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	1	0.02%	0	0.00%
No microbiology results	0	0.00%	1	0.02%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%

SSI rate shown as a percentage of procedures where the organism was present.

Tests can be positive for multiple organisms, therefore, some infections may be present multiple times under different organisms.

*Microbiology data was not collected prior to 2014

0.029%
0.022%
0.015%
0.007%
0.000%